Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Amcangyfrif 2023/24

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Yn unol â pharagraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf) mae'n ofynnol i mi gyflwyno cyllideb refeniw flynyddol i Lywodraeth Cymru (yr Amcangyfrif).

1.2 Fel yr wyf wedi nodi yn fy nghyflwyniad Amcangyfrif 2022/23, llythyrau a gyflwynwyd i'r Gweinidog ym mis Ionawr a mis Mai 2022, fy Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22 a'r wybodaeth am y gyllideb a gyflwynwyd ym mis Awst 2022, nid yw bellach yn gynaliadwy i'm cyllid gwaelodlin i aros ar £1,589,000, gan na allaf barhau i amsugno pwysau chwyddiant mwyach. Gofynnaf i'm cyllideb sylfaenol gael ei chynyddu i £1,690,000, a fydd yn caniatáu imi barhau i sicrhau bod lleisiau a phryderon pobl hŷn yn cael eu clywed, ac y gweithredir arnynt.

1.3 Ym mis Ionawr 2022, roeddwn yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am fodel ariannu mwy cynaliadwy ac wedi rhoi cyllideb ychwanegol i mi o £67,000 i'w defnyddio yn 2022/23 i reoli pwysau costau a nodwyd yn flaenorol. Y gyllideb a ddarparwyd ar gyfer 2022/23 yw £1,656,000.

## 2 Y sefyllfa ariannol bresennol

2.1 Nid yw fy nghyllideb gwaelodlin wedi'i chynyddu i ystyried chwyddiant ers 2016, sy'n cyfateb i ostyngiad mewn termau real o 23% mewn pŵer gwario rhwng Ebrill 2016 ac Medi 2022. Rwy'n gofyn i'm cyllideb gwaelodlin gael ei chynyddu o 6.4%.

2.2 Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn hollbwysig bod y gyllideb sefydlog a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i rheoli'n ofalus. Rwyf wedi sicrhau ein bod wedi gallu amsugno costau cynyddol dros y pum mlynedd hyn drwy reolaeth ariannol ddarbodus a gwneud penderfyniadau, sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy gaffael effeithiol a gwneud y defnydd gorau o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

2.3 O ran rheolaeth gyllidebol mae rhai o'r costau hyn wedi bod y tu hwnt i'n rheolaeth, megis costau staff oherwydd dyfarniadau costau byw a chodiadau cynyddrannol mewn bandiau yn hytrach na chynnydd yn nifer y gweithwyr (ers 2017 mae'r cyfwerth ag amser cyflawn wedi bod yn 20.45 ar gyfartaledd ac yn 20.86 ar hyn o bryd; 22 yw nifer y staff sefydliadol), neu gynnydd yng nghostau cyflog canolrifol y sefydliad. Mae fy adroddiadau blynyddol archwiliedig yn dangos bod cyflog canolrifol y sefydliad wedi cynyddu'n bennaf oherwydd dyfarniadau costau byw. Costau staff yw'r pwysau cost mwyaf sylweddol o hyd, a byddant yn cyfrif am 84% o'm cyllideb os na chaiff ei chynyddu.

2.4 Mae costau eraill wedi bod yn fwy penodol megis cynnal a gwella seibergadernid y sefydliad. Dros y tair blynedd diwethaf, bu disgwyl i mi fuddsoddi ac, ynghyd â'r holl gyrff cyhoeddus eraill, wella seibergadernid fy sefydliad. Mae gwariant yn y maes hwn felly wedi cynyddu o £58,000 yn 2020/21 i £83,000 yn 2022/23. Mae Gwariant TG yn cynnwys cymorth a chynnal a chadw systemau (a gaiff ei roi ar gontract allanol ar gost o £12,000 y flwyddyn), cydymffurfiaeth â TG e.e. Ardystiad Cyber Essential Plus, trwyddedau TG a chymorth cysylltiedig, a chaledwedd. Bydd y lefel hon o wariant yn barhaus i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn seibergadarn.

## 3 Gwariant ers 2019/20

3.1 Mae'r ffigurau a'r naratif isod yn rhoi manylion am fy ngwariant nad yw'n ymwneud â staff ers 2019/20.

| | 2019/20 (£) | 2020/21 (£) | 2021/22 (£) | 2022/23 (£) | 2023/24 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyflogaeth eraill | 26,000 | 11,000 | 18,000 | 28,000 | 27,000 |
| Costau llety | 149,000 | 138,000 | 149,000 | 145,000 | 78,000 |
| Treuliau TG | 59,000 | 58,000 | 82,000 | 83,000 | 80,000 |
| Ffioedd Proffesiynol | 64,000 | 69,000 | 72,000 | 70,000 | 69,000 |
| Costau cyffredinol (gan gynnwys costau nad ydynt yn arian parod) | 65,000 | 48,000 | 29,000 | 36,000 | 38,000 |
| Costau rhaglen waith | 112,000 | 46,000 | 56,000 | 74,000 | 80,000 |

3.1.2 Costau cyflogaeth eraill

Mae'r rhain yn cwmpasu meysydd fel recriwtio a theithio. Mae'n amlwg bod y pandemig wedi effeithio ar y meysydd gwariant hyn. Fodd bynnag, rwy'n rhagweld y bydd gwariant yn dychwelyd i lefelau cyn-bandemig gan fod fy nhîm a minnau'n derbyn ceisiadau gan grwpiau pobl hŷn i gyfarfod wyneb yn wyneb eto, a fydd yn golygu teithio ledled Cymru. Mae hon yn elfen bwysig o'n gwaith craidd.

3.1.3 Llety

Ers 2018 rwyf wedi bod dan rwymedigaeth gytundebol i fodloni'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'm prydles swyddfa, nad wyf wedi gallu eu lleihau.

Ym mis Ionawr 2022, cyflwynais bolisi gweithio hybrid sy'n galluogi staff i benderfynu sut y maent yn rhannu eu hamser rhwng lleoliad gweithio o bell a'r swyddfa. Mae hyn yn ffurfioli ffordd wahanol o weithio sydd wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2020 ac sydd wedi arwain at y penderfyniad na fyddaf yn adnewyddu fy mhrydles swyddfa bresennol pan ddaw i ben ym mis Awst 2023.

Bydd angen defnyddio rhai o'r arbedion costau sy'n codi yn 2023/24 yn sgil rhoi'r gorau i brydles fy swyddfa i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu

swyddfa newydd. Bydd arbedion costau'r flwyddyn i ddod (2024/25 ac ymlaen) a fydd yn cronni o leihau maint y swyddfa o leiaf 75%, yn cael eu defnyddio i wrthbwyso pwysau chwyddiant cynyddol 2024/25 a 2025/26.

3.1.4 Treuliau TG

Gweler adran 2.4.

3.1.5 Ffioedd Proffesiynol

Mae'r rhain yn cwmpasu meysydd o gydymffurfio statudol megis costau archwilio, cyfieithu a ffioedd cyfreithiol. Mae arbedion costau yn y meysydd hyn wedi sicrhau nad yw'r costau hyn wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf.

3.1.6 Costau cyffredinol

Mae'r rhain yn ymwneud â meysydd gwariant gwerth isel fel argraffu, ffonau, papur ysgrifennu a phostio. Mae hefyd yn cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad y Comisiynydd ar asedau sefydlog (heb gynnwys yr ased Hawl i Ddefnyddio). Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

Mae arbedion costau yn y meysydd hyn wedi sicrhau bod gwariant y Comisiynydd ar gostau cyffredinol wedi gostwng 48% dros y pum mlynedd diwethaf.

3.1.7 Rhaglen waith

Mae cyllideb fy rhaglen waith yn fy ngalluogi i gyflawni fy nyletswyddau statudol a’m blaenoriaethau strategol o hyrwyddo ac amddiffyn hawliau pobl hŷn, atal cam-drin pobl hŷn, rhoi terfyn ar ragfarn ar sail oed a gwahaniaethu ar sail oed, a galluogi pawb i heneiddio’n dda.

Effeithiodd y pandemig ar y gyllideb a neilltuais i’m rhaglen waith gan fod angen i waith fy sefydliad esblygu, ac i fod yn fwy adweithiol oherwydd yr amgylchiadau digynsail. Gohiriwyd rhywfaint o’r gwaith a gynlluniwyd, ond nawr mae’n cael ei symud ymlaen, ynghyd â gwaith i ymateb i bwysau a heriau newydd y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, megis yr argyfwng costau byw. Mae gwariant felly’n dychwelyd i lefelau cyn-bandemig fel mae fy nhîm a minnau’n awr yn canolbwyntio ar gyflawni’r blaenoriaethau yn fy nghynllun strategol wedi’i adnewyddu, ac ymdrin â’r heriau newydd sy’n wynebu pobl hŷn.

3.2 Mae’r ffigurau a’r naratif a ddarparwyd yn dangos, oherwydd rheolaeth ariannol ddarbodus dros y pum mlynedd diwethaf, fy mod wedi sicrhau fy mod wedi aros o fewn y gyllideb a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gan fod chwyddiant wedi cynyddu 20% ers i mi dderbyn fy nyraniad cyllid presennol, ni allaf barhau i amsugno costau ar y lefel ariannu barhaus o £1,589,000 mwyach.

## 4 Cais cyllideb ar gyfer 2023/24

4.1 Mae'r cais hwn am gyllid yn dangos nad yw bellach yn gynaliadwy i'm cyllideb aros ar ei lefel bresennol. Mae'r tablau isod yn rhoi manylion y cyllidebau adnoddau ac arian parod sydd eu hangen er mwyn i'r sefydliad barhau'n effeithiol, parhau i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, a chyflawni newid sy'n cael effaith.

**Cais cyllideb ar gyfer 2023/24 a chyllidebau dangosol 2024/25 a 2025/26**

| **Cais cyllideb adnoddau** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|---|
| Costau cyflogaeth | 1,338,000 | 1,385,000 | 1,377,000 |
| Costau cyflogaeth eraill | 27,000 | 27,000 | 28,000 |
| Costau llety (gan gynnwys TAW sy'n ddyledus ar rent) | 46,000 | 27,000 | 27,000 |
| Treuliau TG | 80,000 | 77,000 | 79,000 |
| Ffioedd Proffesiynol | 69,000 | 71,000 | 73,000 |
| Costau cyffredinol | 22,000 | 22,000 | 23,000 |
| Rhaglen waith | 80,000 | 80,000 | 80,000 |
| **Cyfanswm** | **1,662,000** | **1,689,000** | **1,687,000** |
| | | | |
| **Cais am gyllideb heb fod yn arian parod** | | | |
| Amorteiddiad Cyfalaf TG (cytunwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru) | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| 'Arall' – Dibrisiant | 7,000 | 6,000 | 4,000 |
| IFRS 16 - Prydles | 32,000 | 19,000 | 19,000 |
| **Cyfanswm** | **48,000** | **34,000** | **32,000** |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod** | | | |
| Adnoddau | 1,662,000 | 1,689,000 | 1,687,000 |
| Taliadau rhent | 32,000 | 19,000 | 19,000 |
| Dadfeiliad | 98,000 | 0 | 0 |
| Cyfalaf | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| **Cyfanswm** | **1,807,000** | **1,723,000** | **1,721,000** |

4.2 Dadfeiliad y brydles

Yn fy Natganiad o Sefyllfa Ariannol, rwyf wedi sefydlu darpariaeth ar gyfer tâl dadfeiliad sy'n ymwneud â'm prydles yn Adeiladau Cambrian. Bydd y ddarpariaeth hon yn dod yn weithredol yn 2023. Er nad wyf yn rhagweld y bydd angen cyllideb adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth dadfeiliad yma, bydd arnaf angen adnodd arian Cyfrif Buddsoddi Cyffredinol (GIA) ychwanegol o £98,000 gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Cyllid cyfalaf

Yn hanesyddol, mae fy Amcangyfrif wedi'i gyflwyno ar sail cyllideb adnoddau ac ni fu'n ofynnol i mi nodi gofynion cyllid cyfalaf. Fodd bynnag, mae gofynion cyllid cyfalaf y dyfodol wedi'u nodi i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ac aliniad ag egwyddorion cyllidebu LlC. Bydd darparu cyllideb gyfalaf gylchol o £15,000 yn sicrhau y gallaf barhau i fuddsoddi yn fy seilwaith seiber, a fydd yn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn wydn rhag risgiau seiber.

## Effaith peidio â derbyn y cyllid y gofynnwyd amdano

5.1 Costau staff

Mae'r tabl yn 4.1 yn dangos mai costau staff yw fy maes gwariant mwyaf arwyddocaol, ac felly dyma'r unig faes lle gellir gwneud arbedion sylweddol.

At ddibenion cyllidebu yn unig, gwnaed rhagdybiaeth i ganiatáu dyfarniad costau byw o 4% i staff yn 2022/23 a 3% ar gyfer 2023/24. Os na fyddaf yn derbyn cynnydd i fy nghyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24, ni fyddaf yn gallu dyfarnu costau byw i staff ar gyfer 2022/23 na 2023/24. Bydd yn gymdeithasol anghyfrifol i mi, fel cyflogwr, i beidio â dyfarnu taliad costau byw i'm staff yn 2022/23 a 2023/24. Ar hyn o bryd mae 76% o'm staff ar frig eu band cyflog a byddant yn dioddef colled mewn incwm real ac yn cael eu heffeithio'n andwyol o gymharu â gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus os na fyddaf yn cynnig codiad cyflog. Bydd hyn hefyd yn cael effaith andwyol ar fy ngallu i gadw a recriwtio staff.

Os na chaf gynnydd i'm cyllideb sylfaenol, byddaf hefyd yn cael fy ngorfodi i adolygu a lleihau nifer y staff yr wyf yn eu cyflogi o 22 i 19 o bobl. At hynny, ni fyddwn yn gallu ariannu ailstrwythuro o'm dyraniad cyllideb presennol ar gyfer 2022/23, a byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ariannu cost taliadau ymadael, a fyddai'n gost sylweddol.

Bydd ailstrwythuro sefydliadol, ynghyd â cholli swyddi, yn broses aflonyddgar a llafurus iawn, a fyddai'n ansefydlogi'r sefydliad, yn arwain at ddiswyddo staff ymroddedig ac arbenigol, ac yn achosi pryder ac ansicrwydd i'r tîm cyfan o staff.

Byddai'r gallu i gyflawni gwaith effeithiol ar gyfer pobl hŷn yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei amharu'n ddifrifol, a byddai'r broses ailstrwythuro yn cymryd misoedd lawer i'w chyflawni.

Byddai'r gostyngiad yn nifer y staff yr wyf yn eu cyflogi hefyd yn cael effaith sylweddol ar fy ngallu i roi cyngor a chymorth i bobl hŷn. Byddai'n rhaid cael gostyngiad yn lefel yr ymgysylltu uniongyrchol â phobl hŷn a byddwn i, ac aelodau o'm tîm, yn cael fy ngorfodi i dynnu'n ôl o lawer o weithgorau a grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru a lleihau fy nghyfranogiad mewn ymgynghoriadau. Byddai hyn yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i sicrhau bod lleisiau a phryderon pobl hŷn yn cael eu clywed.

Byddai pobl hŷn yn teimlo effeithiau hyn yn uniongyrchol gan y byddai'n rhaid inni wrthod ceisiadau i'w cyfarfod, ac ni fyddem yn gallu bodloni'r galw am ein gwasanaeth Cyngor a Chymorth. Byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar bobl hŷn sydd eisoes dan anfantais, er enghraifft y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Yn ogystal, byddai angen imi adolygu a yw'n bosibl parhau ag elfennau allweddol o'm rhaglen waith, yn enwedig y rheini lle mae angen ymchwil i adeiladu tystiolaeth a gwneud cynnydd, megis cam-drin pobl hŷn, a phrofiadau pobl hŷn Duon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig, o fywyd.

Mae gallu cadw a recriwtio staff profiadol yn hanfodol i sicrhau bod fy ngwaith yn parhau i gael effaith ar bobl hŷn.

Noder, yn 2022/23 rwyf wedi mabwysiadu isafswm band cyflog Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymarfer Cydraddoldeb Cyflog, sydd wedi cynyddu fy mil cyflog ar gyfer 2022/23 o leiaf £11,000. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu'r cyllid am bum mlynedd i dalu am effaith gychwynnol yr ymarfer, bydd yn ofynnol i mi ariannu'r codiadau costau byw ychwanegol yn y dyfodol drwy fy nyraniad cyllid fy hun. Os na ddarperir cyllid ychwanegol sy'n cyfateb i ddyfarniadau costau byw Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ni fyddaf yn gallu parhau i gydymffurfio ag egwyddorion yr ymarfer hwn.

5.2 Rhaglen waith

Os byddaf yn parhau i dderbyn £1,589,000 ac yn dyfarnu taliad costau byw i staff ar gyfer 2022/23 a 2023/24, ni fydd digon o gyllideb ar ôl ar gyfer fy rhaglen waith, heb unrhyw gyllideb ar gael ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fel y dywedwyd uchod, byddai'n rhaid imi felly ymgymryd ag ailstrwythuro sefydliadol a lleihau'r gwaith yr wyf yn ei wneud ar gyfer pobl hŷn, ar adeg pan fo anghenion ac amgylchiadau pobl hŷn yn arbennig o anodd a heriol.

## Casgliad

Fel yr wyf wedi esbonio'n fanwl yn flaenorol wrth Lywodraeth Cymru, byddai fy ngallu i sicrhau bod lleisiau a phryderon pobl hŷn yn cael eu clywed ac yn cael eu gweithredu yn cael ei effeithio'n ddifrifol pe bai fy nghyllideb sylfaenol yn aros ar £1,589,000.

Mae'r ffigurau a'r naratif a ddarperir yn y papur briffio hwn yn dangos fy mod yn chwilio'n barhaus am arbedion cost ac yn eu nodi, sydd wedi'i sefydlu yn ein harfer ariannol. Mae'r rheolaeth ariannol ddarbodus yma wedi sicrhau fy mod wedi aros o fewn y gyllideb a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2016. Fodd bynnag, nid yw bellach yn gynaliadwy i beidio â chynyddu fy nghyllideb ac o fewn y papur briffio hwn, rwyf wedi dangos tystiolaeth fod angen i'm cyllideb sylfaenol gynyddu i £1,690,000 ar gyfer 2023/24.

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar ystod eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos, ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir arnynt. Ategir rôl y Comisiynydd gan set o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dwyn i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn cymryd camau i roi terfyn ar ragfarn ar sail oed a gwahaniaethu ar sail oed, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

**Mae'r Comisiynydd eisiau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru